Rhanbarth Gorllewin Morgannwg
Cafwyd noson hyfryd ar Chwefror 13eg â neuadd Ysgol Gynradd Lon-las, Abertawe yn llawn, pan ddaeth canghennau'r rhanbarth ynghyd i gynnal 'Bwrlwm Bro'. Adroddiad a darlleniad o waith Dafydd Rowlands, teyrngedau i Abiah Roderick a Gwyrosydd, cerdd-dant, cân actol, canu corawl a sgetsys 'Rhaid siarad Saesneg' a 'Trâd Moch', cân ddoniol i egluro 'Ble mae Gwaun Gors' a fersiwn modern o'r gân werin 'Fe gwrddais i â …' nid merch fach ddel… ond Donald Trump! – dyna'r arlwy rhyfeddol a dychmygus. Diolch i bawb fu'n cymryd rhan.

Aelodau o Gangen Llaniestyn, Dwyfor fu'n fuddugol yng nghystadleuaeth Bowlio Deg Dwyfor. Yn dal y bel mae Nia Lloyd Jones, a gafodd y sgôr uchaf ar y noson.

'Adar Brith' cangen Clydach yn cynnig masgot newydd o eryr i Ferched y Wawr.

'CLECS' O'R CLYBIAU

CG Bro Dysynni yn mwynhau cawl a blasu gwin yn siop Dylanwad Da, Dolgellau.

Cywion Conwy yng Nghonwy yn mwynhau Cinio Blwyddyn Newydd.

CG Fama yn Yr Wyddgrug yn cael sgwrs "Pils, Peils a Chrîm" gan Berwyn Owen, Prif Fferyllydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

CG Glyndwr ym Machynlleth ddechrau'r flwyddyn.Cawsant gwmni Huw Jones yn siarad am ei yrfa fel cogydd, a'i waith elusennol gyda Mind. Casglwyd £80 at Mind Aberystwyth ar y noson.